

# Abertawe a Phenrhyn Gŵyr: gogoniant glannau Cymru

Mae treftadaeth forol ac arfordiroedd trawiadol Abertawe a Phenrhyn Gŵyr yn werth eu gweld. Hefyd, mae baeau hardd a chasgliad godidog o gestyll i'w darganfod ar hyd Llwybr Arfordir Cymru ar Benrhyn Gŵyr, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gyntaf y DU a chartref i Gestyll Oxwich a Weblai. Ymhellach i'r gorllewin gwelir Castell Cydweli yn edrych draw dros Afon Gwendraeth. Mae hyn i gyd a mwy daflad carreg o ddinas Abertawe. Bum munud o ganol dinas Abertawe, yn Ardal Forol Abertawe, mae Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, sy'n adrodd stori diwydiant ac arloesi yng Nghymru, nawr ac yn ystod y 300 mlynedd diwethaf.



**Amgueddfa Genedlaethol y Glannau**

Wrth galon marina ffyniannus Abertawe mae **Amgueddfa Genedlaethol y Glannau**, mewn warws wreiddiol ar lan y dŵr ac yn gysylltiedig ag adeilad newydd modern iawn o lechi a gwydr. Drwy gyfrwng technoleg arloesol a rhyngweithiol a hefyd arddangosfeydd traddodiadol, gall ymwelwyr edrych ar sut effeithiodd y Chwyldro Diwydiannol ar bobl a thirluniau Cymru, a'r effaith enfawr gafodd glo, dur a haearn Cymru ar weddill y byd. Gall yr ymwelwyr ymgolli yn hanes cyfoethog a hudolus diwydiant ac arloesedd yng Nghymru, ble mae technoleg heddiw'n rhoi'r gorffennol ar flaen eich bysedd. Mynediad am ddim.



**Castell Weblai**

O deithio ychydig llai na 30 munud yn y car o Abertawe i ogledd Gŵyr, ar hyd Llwybr Arfordir Cymru, gall ymwelwyr â Weblai edmygu un o'r ychydig blastai caerog sydd ar ôl yng Nghymru. O **Gastell Weblai** gellir mwynhau golygfeydd panoramig prin o gorstiroedd a fflatiau llaid gogledd Gŵyr. Does dim llawer o lefydd ar ôl ble gall person sefyll wrth yr un ffenest ag y gwnaeth rhywun hanner mileniwm yn ôl a bod yn dyst i'r un olygfa heb ei difetha. Roedd y plasty'n gartref dymunol tu hwnt, ac yn cynnwys llawer o elfennau hyfryd, ac mae'r ffenestri trawiadol hynod grefftus ac addurnol yn werth eu gweld. Bu nifer o uchelwyr yn berchen ar y tŷ dros y canrifoedd, gan gynnwys y Mansels, a oedd hefyd yn berchen ar Gastell Oxwich gerllaw yn ne Gŵyr.



**Castell Oxwich**

Mae penrhyn hardd Gŵyr yn ffefryn ymhlith y rhai sy'n hoff o dreftadaeth a phobl sy'n gwirioni ar draethau, ac mae mewn llecyn hwylus iawn i'w gyrraedd o ddinas Abertawe. Dewisodd teulu cefnog y Mansels lecyn hardd ar bentir coediog uwch ben Bae Oxwich ar gyfer adeiladu cartref eu breuddwydion. Dewiswyd lleoliad **Castell Oxwich**, tŷ Tuduraidd mawreddog a adeiladwyd yn arddull cowrt, i fanteisio i'r eithaf ar y golygfeydd panoramig o'r môr; ac roedd yn cynnwys yr elfennau moethus diweddaraf — gan gynnwys toiledau dan do! Mae wedi'i leoli yn ne Gŵyr, ar hyd Llwybr Arfordir Cymru, a gellir ei gyrraedd mewn ychydig llai na 30 munud o Abertawe.

# Abertawe a Phenrhyn Gŵyr: gogoniant glannau Cymru

4



Castell Cydweli

Ewch i [cadw.wales.gov.uk](http://cadw.wales.gov.uk) i ddarganfod y straeon a'r bobl y tu ôl i'r 128 o safleoedd hanesyddol sydd gennym. Beth am 'Hoffi' Cadw ar Facebook a dilyn @Cadwwales ar Twitter neu lwytho'r ap sydd gennym i ffonau clyfar i lawr, i gael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Ewch i [amgueddfacymru.ac.uk](http://amgueddfacymru.ac.uk), cofiwch hoffi Amgueddfeydd Cymru ar Facebook a dilynwch @AmgueddfaCymru.

Ymhellach ar hyd Llwybr Arfordir Cymru, 45 munud o Abertawe, mae **Castell Cydweli**, cofadail canoloesol o'r un safon â chestyll gwych eraill Cymru. Mae Cydweli yn nharth cynnar y bore'n olygfa hudolus. Castell Normanaidd oedd y castell cynharaf ar y safle, wedi'i wneud o bridd a choed, ond fe'i ailadeiladwyd o garreg erbyn y 13eg ganrif. Mae'r dref yr un mor hynafol, wedi'i sefydlu oddeutu 1115 AD. Elwodd Cydweli o'r ffordd ddiweddaraf o feddwl o ran dylunio cestyll. Roedd iddo gynllun consentrig gydag un gylched o waliau amddiffyn wedi'i gosod oddi mewn i gylched arall, fel bod posib amddiffyn y castell hyd yn oed pe bai'r wal allanol yn syrthio. Dechreuwyd adeiladu'r porthdy yn y 14eg ganrif, ond ni chafodd ei gwblhau tan 1422. Y tu allan i'r porthdy gwelir cofgolfn i'r Dywysoges Gwenllïan, a fu farw mewn brwydr heb fod ymhell o Gydweli yn 1136.



Mae'r siwrnai o Abertawe i Weblai ychydig o dan 30 munud mewn car, ac yn 45 munud o Abertawe i Gydweli.